*These notes refer to the Deddf Addysg (Cymru) 2014 (c.5) which received Royal Assent on 12 Mai 2014*

# DEDDF ADDYSG (CYMRU) 2014

---

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

#### *Adran 46 – Darpariaeth ategol*

76. Mae'r pwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan yr adran hon yn caniatáu iddynt wneud unrhyw orchmynion sy'n briodol yn eu barn hwy er mwyn i'r Ddeddf gyflawni ei dibenion a chael ei heffaith lawn.

77. Mae enghreifftiau o sut y gellid defnyddio'r p#er hwn yn cynnwys:

- i wneud newidiadau i ddeddfwriaeth arall o ganlyniad i'r newidiadau a wneir gan y Ddeddf hon;
- i roi mwy o eglurder o ran unrhyw un neu ragor o'r gweithdrefnau newydd;
- i ymdrin â manylion sydd heb eu rhag-weld ac sy'n codi wrth roi'r system newydd ar waith.

78. Pan fo'r p#er hwn yn cael ei ddefnyddio i ddiwygio testun deddfwriaeth sylfaenol rhaid iddo gael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a'i gymeradwyo ganddo, cyn y daw i rym (yn rhinwedd adran 47(2)(d)).